www.food.gov.uk

FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD CYMRU

At: Bobl â diddordeb

4 Ebrill 2008 Cyfeirnod: WAL 15/1420

Papur Gweithio'r Comisiwn ar gyfer Cynnig i Ddiwygio Cyfarwyddeb 90/496/EEC Labeli Maeth ar Fwydydd

Annwyl Syr/Fadam

Fel y nodwyd yn ein llythyr ymgynghori, dyddiedig 11 Mawrth 2008, ar ddiwygio Cyfarwyddeb 90/496/EEC Labeli Maeth ar Fwydydd, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi fersiwn ddiweddaraf y papur gweithio, yn nodi manylion rhai o'r diwygiadau arfaethedig (ynghlwm).

Er hwylustod, rydym wedi amlygu'r gwahaniaethau rhwng y ddwy ddogfen weithio yn Atodiad A. Os ydych eisoes wedi ymateb i'r ymgynghoriad ond yn teimlo yr hoffech wneud sylwadau ychwanegol, mae croeso i chi anfon adendwm i'ch ymateb gwreiddiol.

Er mwyn rhoi amser i chi gael ystyried y diwygiadau, rydym yn ymestyn y cyfnod ymgynghori. Bellach, **gofynnir i ymatebion ddod i law erbyn 18 Ebrill 2008.** Ni fydd modd i ni gynnig estyniadau y tu hwnt i'r dyddiad hwn oherwydd bod y Comisiwn wedi gosod dyddiad terfyn ar gyfer derbyn sylwadau.

Dylid anfon unrhyw sylwadau i :

Alison Black
Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 029 2067 8910
Ffacs: 029 2067 8919
Neu drwy'r e-bost i: Alison.black@foodstandards.gsi.gov.uk

Yn gywir

Sarah Meredith

Iechyd Deietegol a Dewis i Ddefnyddwyr

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru

Atodiad A

Rhestr fanwl o'r newidiadau i Gynnig y Comisiwn i Ddiwygio Cyfarwyddeb 90/496/EEC Labeli Maeth ar Fwydydd

(Nodir y newidiadau yn yr iaith wreiddiol)

Datganiadau:
(4) Diwygiad yn ail linell y frawddeg yn sgil golygu.

(5) Ychwanegwyd testun i'r frawddeg olaf:
' …the definition of fibre should include carbohydrate polymers with *one or more* beneficial physiological effects.'

(6) Ychwanegwyd testun i'r frawddeg olaf:
'These substances when closely associated with carbohydrate polymers of plant origin and *extracted with the carbohydrate polymers for analysis of fibre* should be considered as fibre*. However when extracted and added to a food they should not be defined as dietary fibre.'*

(9) Diwygiad yn llinell gyntaf ac ail linell y frawddeg yn sgil golygu.

(11) Ychwanegwyd testun ar ddiwedd y paragraff:
'*The purpose of this RDA list is to provide values for nutrition labelling and the calculation of what constitutes a significant amount*.'

(15) Diwygiad yn ail linell y datganiad yn sgil golygu.

Erthyglau
Erthygl 2.2 Nodwyd amserlen o bedair blynedd ar gyfer gwahardd cynnyrch nad ydynt yn cydymffurfio â'r darpariaethau.

Atodiad
Diwygiwyd uned mesur Biotin i μg er mwyn cywiro gwall a wnaed wrth gysodi.